

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

13 Ionawr 2023

1. Cefndir

1. Ar 18 Awst 2022, gosododd y Gweinidog Newid Hinsawdd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) ("y Bil") gerbron y Senedd. Cafodd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ("Memorandwm Atodol (Rhif 2)") ei osod ar 5 Hydref. Cafodd Memorandwm Atodol ychwanegol ("Memorandwm Atodol (Rhif 3)") ei osod ar 17 Tachwedd 2022. Gwnaethom adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Memorandwm Atodol (Rhif 2) a Memorandwm Atodol (Rhif 3) ar 13 Rhagfyr 2022.

2. Ar 6 Rhagfyr 2022, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ychwanegol (Memorandwm Rhif 4) ("Memorandwm Atodol (Rhif 4)"). Ar 13 Rhagfyr 2022, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Atodol (Rhif 4) at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ("y Pwyllgor") a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er mwyn iddynt ei drafod. Pennodd y Pwyllgor Busnes 13 Ionawr 2023 fel dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau. Gwnaethom drafod Memorandwm Atodol (Rhif 4) yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2022.

2. Memorandwm Atodol (Rhif 4)

3. Mae paragraffau 17 i 25 o Femorandwm Atodol (Rhif 4) yn nodi safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi Memorandwm Atodol (Rhif 3).



4. Mae paragraff 20 yn nodi, gan fod cymal 24, a fewnosodwyd yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi i ychwanegu safonau ynghylch y galw am ynni, bellach wedi'i ddileu o'r Bil, nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwnnw mwyach.

5. Mae paragraffau 24 a 25 yn nodi, gan fod cymal 11 dim ond yn berthnasol i eiddo sy'n cael ei rentu yn Lloegr, fod Llywodraeth y DU wedi hysbysu Llywodraeth Cymru ers hynny nad oes angen cydsyniad. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno.

3. Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

6. Mae paragraffau 19, 21 a 22 o Femorandwm Atodol (Rhif 4) yn nodi bod Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer pob un o'r cymalau a ganlyn (fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin) oherwydd eu bod yn ymwneud â thai cymdeithasol, sy'n fater sydd heb ei gadw yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cymal 4

7. Mae'r cymal hwn wedi'i ddiwygio i ddi-ddymu darpariaethau o fewn Deddf Tai ac Adfywio 2008 sy'n darparu pwerau penodol i alluogi'r rheoleiddiwr i godi ffioedd gan ddarparwyr cofrestredig tai cymdeithasol am arolygiadau.

Cymal 27

8. Mae'r cymal hwn wedi'i ddiwygio fel bod yn rhaid ystyried effaith arolygon ar fangre sy'n cynnwys rhannau cyffredin o adeilad ar allu meddianwyr i ddefnyddio eu hanheddau a'r rhannau cyffredin hynny wrth benderfynu a ellir gadael cyfarpar neu ddeunyddiau ar y safle tra bod yr arolwg yn cael ei gynnal.

9. Mae'r cymal hefyd wedi'i ddiwygio i addasu'r pŵer i adael cyfarpar ac ati ar safle yn ystod arolwg, fel y gellir gadael cyfarpar mewn man lle mae'n amharu ar y defnydd o annedd neu rannau cyffredin dim ond os na ellir ei adael yn hytrach mewn mannau eraill ar y fangre lle na fyddai'r rhwystr hwn yn digwydd.

Cymal 30

10. Mae'r cymal hwn wedi'i ddiwygio yn yr un modd â chymal 27; hynny yw:

- rhaid ystyried gallu meddianwyr i ddefnyddio eu hanheddau wrth benderfynu a ellir gadael cyfarpar ar y safle wrth gymryd camau unioni brys; a

- bod y pŵer i adael cyfarpar ar y safle wrth gymryd camau unioni brys yn cael ei addasu.

4. Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn yng Nghymru

11. Mae paragraffau 30 a 31 o Femorandwm Atodol (Rhif 4) yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Mae Memorandwm Atodol (Rhif 4) yn nodi:

"Fel y nodir yn y memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol ar y Bil, cymharol ychydig (tua 530) o eiddo yng Nghymru y mae darparwyr cofrestredig Seisnig a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddio a ddisgrifir gan y Bil yn berchen arno a/neu'n ei reoli.

Y bwriad at ei gilydd yw y bydd y Bil, fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, yn arwain at wella perfformiad darparwyr cofrestredig, yn cryfhau hawliau tenantiaid ac yn ysgogi newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid, ac yn sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. Bydd hyn yn arwain at newid cadarnhaol i holl denantiaid darparwyr cofrestredig Seisnig, gan gynnwys tenantiaid Cymru y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt, ac felly rwy'n parhau'n fodlon y dylid gwneud y darpariaethau hyn mewn Bil gan Senedd y DU."

5. Trafodaethau a chasgliad y Pwyllgor

12. Gwnaethom drafod Memorandwm Atodol (Rhif 4) yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2022.

13. Ailadroddwn y sylwadau a wnaed gennym yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, Memorandwm Atodol (Rhif 2) a Memorandwm Atodol (Rhif 3). Ein barn gadarn yw bod yr amser byr a neilltuir i'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn annigonol i'n galluogi i ddeall yn llawn effaith y darpariaethau perthnasol ar fywydau pobl yng Nghymru.

14. Er gwaethaf y pryderon a amlinellir uchod, mae'r rhan fwyaf o'r Aelodau yn teimlo y gallant argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i ddeddfu ar y materion datganoledig hyn y tro hwn. Mae un Aelod o'r Pwyllgor, sef Mabon ap Gwynfor AS, yn anghytuno â barn y mwyafrif ac yn credu na ddylid rhoi cydsyniad.